# Cofnodion Cyfarfod

## Cygnor Cymuned Pistyll

Nos Fawrth 12fed o Dachwedd, 2019 am 7:00y.h

Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams



| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | | Sara Williams **(SW),** Ynyr Ellis **(YE)**, Griffith Jones **(GJ),** John Owen **(JO)**,<br>Cyng. Aled Jones **(AJ).** |
| **1.** | | **<u>Hysbysiadau'r Cadeirydd</u>**<br><br>Croesawodd **SW** pawb i'r Cyfarfod ac ymestyn cydymdeliad i'r Aelod Lleol ar brofedigaeth y teulu mis diwethaf |
| **2.** | | **<u>Ymddiheuriadau ac absenoldeb</u>**<br><br>Sianelen Pleming **(SP)**, Gwilym Williams **(GW)**, Lizbeth James **(LJ)**, Olwen Roberts **(OR)**, William Jones **(WJ)**. Emlyn Hughes **(EH)**. |
| **3.** | | **<u>Datgan Diddordeb</u>**<br><br>Dim |
| **4.** | | **<u>Diweddariadau asedau</u>**<br><br>Popeth yn briodol, dim i'w adrodd |
| **5.** | | **<u>Cofnodion Cyfarfod Hydref, 2019</u>** |
| | ***5.1*** | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd **JO** gywirdeb y Cofnodion, eiliodd **GW** a chytunodd pawb |
| | ***5.2*** | **Materion yn codi** |
| | ***5.2.1*** | **Wal y ffordd i Nant**<br>Adroddodd yr aelodau bod y gwaith o safon uchel a bodd lle i dynnu i mewn yn dop yr allt. |

*Llofnodwyd gan.............................................................................................Dyddiad.......................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | ***5.2.2*** | **Materion Lleol**<br>Y Clerc wedi derbyn ymateb gan Adran Priffyrdd Dwyfor yn dilyn y cwynion canlynol:<br><br>• Gwrych wedi côr dyfu ar wal Tŷ'r Hen Eglwys ar y Bont yn Llithfaen<br>*Llythyr wedi ei anfon i berchnogion y tir gyda chais iddynt ddocio'r gwrych.*<br><br>• Difrod hefo dwr yn rhedeg o Fryn Celyn Uchaf ar Ffordd y Nant i fynnu o'r groesffordd.<br>*Y mater wedi ei drosglwyddo i Waith Stryd, Amgylchedd gyda chais iddynt gysylltu gyda'r contractwr er mwyn iddo ddychwelyd i atgyweirio'r draen.* |
| | ***5.2.3*** | **Cyllid**<br>Adroddodd **SW** ei bod wedi cysylltu â Mam Llio Gethin yn dilyn cais am wybodaeth gan y Clerc gan fod y siec a chyflwynwyd fel gwobr am ennill cystadleuaeth creu poster dal heb ei chyflwyno i'r banc. Aeth ymlaen i esbonio fod y siec wedi cael ei chadw yn rhy saff gan Llio.<br>*Penderfynwyd peidio ysgrifennu siec arall am y pryd gan fod digon o amser i'r teulu i'w darganfod ai chyflwyno.* |
| **6.** | | **<u>Ceisiadau Cynllunio</u>**<br><br>Dim |
| **7.** | | **<u>Y Ganolfan</u>**<br><br>Nid oedd diweddariad pellach i'w gynnig ar y noson |
| **8.** | | **<u>Bin sbwriel yn y maes parcio uwchben Nant Gwrtheyrn</u>**<br><br>Derbyniwyd cwyn gan Swyddog o AHNE fod sbwriel yn gorlifo o'r bin yn y Maes Parcio a chais i'r Cyngor drafod y posibilrwydd o newid math y bin.<br>Gan fod y mater wedi ei drafod mis diwethaf yn dilyn cais am wybodaeth gan y Cyngor Sir a dim gwybodaeth ychwanegol i'w gynnig gan yr aelodau presennol, penderfynwyd trafod y mater eto mis nesaf.<br>*Y Clerc i ddiweddaru'r Swyddog AHNE* |
| **9.** | 9.1 | **<u>Materion Lleol</u>**<br><br>**Difrod hefo dwr yn rhedeg o Fryn Celyn Uchaf ar Ffordd y Nant i fynnu o'r groesffordd.**<br>Cytunodd yr Aelodau bod angen adrodd am y broblem eto gan bwysleisio perygl gyda rhew.<br>*Y Clerc i weithredu* |

*Llofnodwyd gan.............................................................................Dyddiad.....................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | 9.2 | **Gwersylla yn y maes parcio**<br><br>Derbyniwyd gwybodaeth gan **SP** bod gwersylla yn y maes parcio yn parhau<br>*Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am arweiniad gan obeithio cael cymorth i'r unigolyn os oes angen. Y Clerc i weithredu.* |
| **10.** | | **Gohebiaeth a Gwybodaeth** |
| | ***10.1*** | **Gwahoddiad i fynychu gweithdai Amrywiaeth mewn Democratiaeth**<br>Y Clerc wedi ei rannu o flaen llaw ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach |
| | ***10.2*** | **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020.**<br>Y Clerc wedi ei rannu o flaen llaw ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach |
| | ***10.3*** | **Ciost BT (Cyfnod ymgynghori dod i ben 30/12/19)**<br>Y Clerc wedi ei rannu o flaen llaw ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach |
| **11.** | | **Cyllid** |
| | ***11.1*** | **Cyfrifon y Cyngor**<br>Rhannwyd y Cyfrifon i'r Aelodau o flaen llaw. Adolygwyd a chymeradwywyd y Llyfr arian, Cysoniad banc, a Rhagamcanion 2019/20.<br>Cynigiodd **SW** eu cywirdeb, eiliodd **YE** a chytunodd pawb. |
| | ***11.2*** | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br><br>**Cyfrif Cyfredol**<br>Taliadau- £160.00 - Cyflog Clerc<br>£ 10.00 - Treuliau Clerc<br>Derbyniadau - £0<br>*Balans -* *£7645.61*<br><br>**Cyfrif Cadw**<br>*Balans -* *£3404.69* |
| | ***11.3*** | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br>£160.00 - Cyflog Clerc<br>£ 13.24 - Treuliau Clerc<br>£156.00 – Archwilwyr Mewnol |
| **12.** | | **Dyddiad y Cyfarfod nesaf –** Nos Fawrth y 10fed o Ragfyr |

*Llofnodwyd gan.......................................................................................Dyddiad.....................................................*

*Clerc Cygnor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*